

Cyfarfod	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli
Dyddiad	20fed o Fawrth 2018
Teitl	Adolygiad Hafan a Harbwr Pwllheli
Awdur	Llyr B Jones, Uwch Reolwr Economi a Chymuned

1. Pwrpas yr Adroddiad

1.1 I gynnig diweddariad ar fwriad yr Adran i adolygu model rheoli ar gyfer yr Harbwr a'r Hafan ac i geisio barn y Pwyllgor ar y meini prawf i'w ddefnyddio ar gyfer gwerthuso'r modelau posib.

2. Cefndir

2.1 Ers i reolaeth Hafan Pwllheli gael ei drosglwyddo i gyfrifoldeb uniongyrchol Cyngor Gwynedd nol ym mis Ebrill 2008 mae bwriad wedi bod i ystyried modelau eraill i'r tymor hir.

2.2 Dros yr un cyfnod mae'r gwasanaeth wedi wynebu sawl her gan gynnwys :

- Dirwasgiad economaidd wedi effeithio ar y sector forwrol (a'r galw am angorfeydd)
- Pryderon am lefelau siltio'r sianel yn effeithio ar fynediad i'r harbwr
- Diffyg capasiti mewn lleoliadau addas ar gyfer gwaredu gwaddodion o'r harbwr (sy'n cyfyngu opsiynau carthu)
- Cynnydd mewn costau megis TAW a thanwydd sydd yn effeithio'r sector forwrol
- Cyflwr bregus y sector forwrol wedi arwain at gystadleuaeth gynyddol ymysg marinas am gwsmeriaid

2.3 Er bod y gwasanaeth yn parhau i gynhyrchu elw blynyddol, mae'r cyfuniad uchod o ffactorau yn golygu fod nifer o gwsmeriaid blynyddol wedi lleihau dros y ddegawd ddiwethaf.

2.4 Mae'r sefyllfa ariannol yn cael ei adolygu'n reolaidd wrth gwrs ac ym mis Chwefror 2017 bu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu gefnogi bwriad yr adran i adolygu trefniadau rheolaethol.

2.5 Bellach mae'r Adran wedi sicrhau adnodd prosiect i fedru symud y gwaith yma yn ei flaen a'r nod presennol yw i ddatblygu achos fusnes amlinellol yn ystod y flwyddyn a thrwy hynny penderfynu ar gyfeiriad pendant i'r dyfodol.

2.6 Bydd datblygu'r achosion busnes yn broses iteraidd a bydd y gwaith yn dilyn fframwaith methodoleg 'Model Pump Achos' y Llywodraeth. Bydd y drefn arfaethedig yn caniatáu mewnbwn ac arweiniad buan prif fudd-ddeiliad y prosiect i lywio cyfeiriad y gwaith a sicrhau fod ystyriaeth yn cael ei roi i ystod o fodlau posib a bod yr ystyriaeth hynny'n gymesur i'w tebygolrwydd o fod yn addas. Bydd yn ei dro yn sicrhau

ein bod yn canolbwyntio adnoddau ar y modelau sydd fwyaf tebygol o fodloni'r amcanion.

2.7 Bydd 3 Cam penodol i'r gwaith, sef

- i) Cam 1 : Sefydlu os oes achos i newid
- ii) Cam 2 : Datblygu achos busnes amlinellol
- iii) Cam 3 : Gweithredu

2.8 Yn fras, pwrpas y cam cyntaf yw asesu os oes achos i newid ac os oes cyfiawnhad dros fuddsoddi rhagor o adnoddau ac amser i wneud gwaith pellach ar restr fer o opsiynau. Yn ddarostyngedig i Gam 1 mae'r ail gam yn edrych ar y rhestr fer mewn mwy o fanylder, gan asesu eu hyfywdra ar ffurf achos fusnes. Ar ddiwedd Cam 2 bydd penderfyniad i weithredu model newydd neu beidio.

3. Cam 1 : Ystyried Achos Dros Newid

3.1 Yn ei hanfod fe geisir ateb 2 gwestiwn sylfaenol yma:

- Oes achos i newid o fod yn rheoli'r Hafan a'r Harbwr ein hunain?
- Os oes, pa fodel neu fodelau ddylen ni ystyried ymhellach?

3.2 Er mwyn ateb y cwestiynau rheini mae angen sefydlu beth sy'n bwysig o ran yr amcanion rydym yn ceisio cyflawni o'r Hafan a'r Harbwr. Bydd yr amcanion rheini yn ymddwyn fel meini prawf i werthuso'r model presennol yn erbyn modelau amgen.

3.3 Y bwriad ydi ymgysylltu gyda budd-ddeiliaid i gael mewnbwn ar yr amcanion yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill. Bydd canlyniadau'r trafodaethau hynny'n hysbysu'r meini prawf terfynol ac yn sail i fynd ati i werthuso'r modelau.

4. Meini Prawf Drafft

4.1 Fel man cychwyn i gynnu trafodaeth mae'r Bwrdd Prosiect yn cynnig y meini prawf canlynol (noder nad ydynt mewn unrhyw drefn blaenoriaeth:

- a) Yn atgyfnerthu'r economi drwy fod yn fasnachol hyfyw a thrwy hynny cefnogi cwmnïau morwrol a swyddi lleol
- b) Yn sbardun economaidd drwy ddenu ac uchafu defnydd o'r harbwr
- c) Y gallu i hyrwyddo'r iaith Gymraeg

ch) Cynnig budd ariannol i'r Cyngor

d) Y gallu i ddenu buddsoddiad

dd) Yn fodel busnes a chynaliadwy

e) Yn fodel posib i'w weithredu

4.2 Meini prawf drafft yw'r rhain, ac mae'r Cyngor yn awyddus i dderbyn sylwadau arnynt.

5. Argymhelliad

5.1 Croesawir sylwadau a thrafodaeth gyda'r Pwyllgor Harbwr Ymgynghorol ar y meini prawf drafft uchod.